# Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com £1

Chwefror 2026 – Cyfrol 11 – Rhifyn 5

## Waliwr gorau'r byd



Wrth ymweld â'r Lle Celf yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam y llynedd, un o'r arddangosfeydd oedd yn sefyll allan wrth i chi gamu mewn drwy'r drws oedd wal gerrig wedi'i hadeiladu mewn ffrâm bren. Yn sefyll wrthi roedd gŵr ifanc barfog, â gwallt hir a gwên lydan. Barney Murray oedd enw'r crefftwr ac roedd o wedi ennill cystadleuaeth 'Pleidlais y Bobl' Y Lle Celf, am yr arddangosfa fwyaf trawiadol yno. '*Cerrig Oerion*' oedd teitl ei waith yn y Steddfod, gan ei fod wedi cael y cerrig i gyd o hen ffermdy traddodiadol o'r enw Cerrig Oerion, oedd yn adfail ers 1900 yng Nghyffylliog. Teimlai Barney yn angerddol fod ei waith Celf fel cofnod i hen ffermdai traddodiadol Cymreig. Ond yn fwy diddorol na hynny oedd y ffaith ei fod yn byw yn Avoca, Llandyrnog!

Waliwr cerrig sych 26 oed ydi Barney. Ar ôl gadael ysgol, cychwynnodd ar gwrs sylfaen saer maen yng Ngholeg Iâl Wrecsam. Ond wedi un tymor yn unig, cafodd waith amser llawn efo saer maen oedd newydd gychwyn cwmni adeiladu waliau cerrig sych. Ar ôl gweithio am ddim ond dau ddiwrnod, gwyddai Barney yn syth mai dyma beth roedd o am wneud yn y dyfodol. Ers hynny mae Barney wedi ennill gwobrau Cymreig, Prydeinig a Rhyngwladol fel waliwr.

Fo ydi'r Cymro cyntaf ers 30 mlynedd i dderbyn statws Crefft Meistr ar ôl cwta 5 mlynedd o astudio'r grefft. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Barney wedi ennill *Grand Prix* Wal Cerrig Sych ar ôl cyfres o ddigwyddiadau ar draws y DU a thu hwnt. Yn 2022, yn Trentino, yr Eidal, enillodd yr unig gystadleuaeth ryngwladol sydd ar gael yn y byd ar gyfer codi waliau sych – felly mae hynny'n golygu mai fo ydi pencampwr y byd yn y grefft!



*Enghraifft arall o waith Barney*

# Newyddion y pentre

***Cyfarchion pen blwydd*** i Dic y Fron, Aberwheeler oedd yn dathlu 91 oed 17 Ionawr (*gan Mandy a Jon*).

***Pob dymuniad da*** i Pym yn dilyn torri garddwrn, ac Archie Davies a Gary Lewis yn dilyn triniaeth ysbyty

***Croeso*** cynnes i Jo Brett, Dolerw sydd wedi symud o Nantglyn.

***Llongyfarchiadau*** mawr i Gwilym a Myfanwy, Gwylfan, Maes Tyrnog ar ddod yn hen Daid a Nain unwaith eto, ganed Zara Elizabeth i Sioned a Wil Kemp yn Swydd Efrog wythnos cyn y Nadolig.

***Cydymdeimlwn*** â Sue Vine a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Peter, a hefyd â theuluoedd Joyce Cattroll, Llangwyfan gynt, a Derek Evans, mab y diweddar Cliff a Sylvia Evans.

Brownies

1st Llandyrnog Brownies

Mae llefydd gwag yn uned Llandyrnog ar hyn o bryd i ferched rhwng 7 a 10 mlwydd oed. Rydyn ni'n cyfarfod bob nos Lun o 5.30 tan 7 o'r gloch yn neuadd y pentre.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Mrs Karen Morris ar 07540 146125 neu anfonwch e-bost ati: gingerkaz64@gmail.com


**DBP** Denbigh Building Plastics

*SUPPLIERS & INSTALLERS*

*U_PVC windows, doors, rockdoors, secondary double glazing, sealed units. Conservatories, porches, garage doors, fascias, gutters, dry verge system, Firestone rubber roofing and canopies.*

Unit 7
Colomendy Industrial Estate
Denbigh LL16 5TA
01745 818849
**Open Mon—Fri 7.30am—5 pm**
**Sat 9 am—12 pm**


## Siop Llandyrnog

**Oriau agor y siop**

| | |
|---|---|
| Llun | 8am – 5.30pm |
| Mawrth | 8am – 5.30pm |
| Mercher | 8am – 5.30pm |
| Iau | 8am – 5.30pm |
| Gwener | 8am – 5.30pm |
| Sadwrn | 8am – 4pm |

07301 573362
01745 422099

info@llandyrnogshop.com

ShopLlandyrnog

Llandyrnogshop.com

**Oriau agor y swyddfa bost**

Llun – Gwener 9am – 5.30pm
Sadwrn 9am – 12.30pm

Gallwch nôl parseli rydych wedi'u harchebu ar-lein o'r Swyddfa Bost. Hefyd, postiwch bob peth wrth y cownter, gan fod incwm yn deillio o hyn.

# Yr Ystafelloedd Coco

| | | |
|---|---|---|
| Llun 2$^{il}$ | Grŵp gweu | 10am |
| | Trefoil Guild | 1.30pm |
| Maw 3$^{ydd}$ | Grŵp Cyfeillgarwch | 2pm |
| | Cyfarfod pwyllgor y *Llais* | 7pm |
| Mer 4$^{ydd}$ | Peintio a phaned | 12–2pm |
| Gwe 6$^{ed}$ | Grŵp cwiltio | 1.30–3.30pm |
| Llun 9$^{fed}$ | Grŵp gweu | 10am |
| Mer 11$^{eg}$ | Undeb y Mamau | 2pm |
| Llun 16$^{eg}$ | Grŵp gweu | 10am |
| Maw 17$^{eg}$ | Cyngor Cymuned | 7pm |
| Mer 18$^{fed}$ | Tuesday Club | 2pm |
| Llun 23$^{ain}$ | Grŵp gweud | 10am |

Diolch yn fawr i Emily Williams sydd wedi bod yn Swyddog Llogi'r Ystafelloedd Coco am flynyddoedd lawer. Croeso mawr i Carolyn Langford-Jones, y Swyddog Llogi newydd.

**I logi'r Ystafelloedd Coco cysylltwch â Carolyn Langford-Jones: 01824 790122 cocoaroomsbookings@gmail.com**

I hurio **Neuadd y Pentre,** cysylltwch ag Ivan Butler: 07799570549 neu ar e-bost: ivanbutler897@btinternet.com

# Eglwys St Cwyfan

| | | |
|---|---|---|
| Sul 1 | 11.15 | Boreol Weddi |
| Sul 8 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| | 15.30 | Llan Llanast |
| Sul 15 | 11.15 | Cymun Bendigaid |
| Sul 22 | 11.15 | Cymun Bendigaid |

# Neuadd y Pentre

| | | |
|---|---|---|
| Llun 2$^{il}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Mer 4$^{ydd}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |
| Sad 7$^{fed}$ | Grŵp crefftau | 10am–4pm |
| Sul 8$^{fed}$ | Llan Llanast | 3.30–5pm |
| Llun 9$^{fed}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 10$^{fed}$ | Clwb Garddio | 7–9pm |
| Sad 14$^{eg}$ | Ysgol Bryn Clwyd | Drwy'r dydd |
| Llun 16$^{eg}$ | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 17$^{eg}$ | Cyfarfod blynyddol y Clwb Merlod | 7–9pm |
| Sul 22$^{ain}$ | Brownies – diwrnod meddwl | Drwy'r dydd |
| Llun 23$^{ain}$ | Brownies | 5.30–7pm |
| | Côr | 7.30–9.30pm |
| Maw 24$^{ain}$ | Y Clwb Seryddiaeth | 7–9pm |
| Mer 25$^{ain}$ | Pilates | 7.15–8.15pm |



# Ail Nadolig Siop Llandyrnog

Ac am lwyddiant oedd hi adeg y Nadolig!!! Diolch i bawb sy'n dal i gefnogi'r siop gymunedol, yn enwedig y 35 o bobl a brynodd ein Hampers Nadolig gwych eleni. Byddant yn siŵr o ddod 'nôl yn 2026.






Hydref diwethaf, roedden ni ymhlith 400 o dderbynwyr llwyddiannus cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi Mannau Cynnes ledled Cymru fel rhan o'r prosiect Cymru Gynnes. Cynigiwyd cawl blasus dros gyfnod y Nadolig, ac roedd diodydd poeth a thost ar gael bob dydd tan ddiwedd mis Mawrth. Mae ein siop gymunedol yn fan perffaith i gymdeithasu a chadw'n gynnes y gaeaf hwn. Dewch i ymuno â ni! Mae gennym eisoes lawer o grwpiau lleol yn galw heibio am baned, yn enwedig grwpiau cerdded a beicio lleol. Byddant yn falch o glywed ein bod yn creu rhagor o le i eistedd yn y siop ac y bydd rac beiciau yno hefyd cyn bo hir.

Mae'r cyllid Mannau Cynnes hefyd yn galluogi ni i ddarparu cinio am ddim yn ystod hanner tymor i blant oed ysgol. Plant yw calon ac enaid cymuned, ac rydym yn annog pawb i alw heibio i ddefnyddio'r dewis helaeth o gemau a llyfrau! Rydym hefyd yn gwneud cais am grant i weithio gyda Chanolfan Grefft Rhuthun ac Ysgol Llandyrnog ar brosiect celf o fewn y siop – cadwch lygad!

Cofiwch, dyma'ch siop **chi**. Mae pob syniad ac awgrym yn cael ei groesawu'n gynnes. Sefydlwyd y siop yn wreiddiol gyda chymorth Cronfa Perchnogaeth Gymunedol Llywodraeth y DU, Cronfa Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru a Chronfa Budd Cymunedol Brenig Wind Ltd.

Chwilio am fara a llaeth, cynhwysion ar gyfer cyri Thai cartref, cerdyn cyfarch Cymraeg, eisiau talu arian i mewn i gyfri neu ddychwelyd parsel *Amazon* a archebwyd ar gam? Siop Llandyrnog amdani.

WARM WALES
CYMRU GYNNES

**Siop Gymunedol Llandyrnog**
**Llandyrnog Community Shop**

**14–21 Chwefror**

Cinio am ddim i blant oed ysgol
yn ystod gwyliau'r hanner tymor.
Dewis o ffa pob, wy
neu gaws ar dost

**Tan 27 Mawrth**

Diod boeth a thost i oedolion
sy'n chwilio am gwmni
mewn man diogel a chynnes

# Sbwriel!

Tybed a fu i chi sylwi bod yna fwy o sbwriel ar ochr y ffyrdd yn ddiweddar? Yn ôl ystadegau diweddar, mae hyd at 65% o yrwyr yn cyfadde eu bod nhw'n taflu sbwriel allan o'r car – heb sôn am y seiclwyr!

Beth sydd fwyaf amlwg, mae'n debyg, ydi mai'r to iau sydd fwyaf tebygol o daflu 'sbwriel' ac wrth weld faint o lanast o fwytai nid anenwog, sydd ar y B5429, hawdd credu hynny ac mae'n achosi pryder. Mi all wneud niwed mawr i fywyd gwyllt efo'r creaduriaid bach yn bwyta bwyd nad ydynt wedi arfer â fo neu roi eu trwynau mewn bagiau creision.

Mi alla i eich sicrhau, a dwi wedi bod yn dyst i hyn, bod malwod er enghraifft yn tyrru mewn i bacedi creision '*coctels corgimwch*' – dim blas arall. Pam, dwi ddim yn gwybod – efallai all rywun rhoi goleuni ar y mater!

Ymddengys bod 35% o bobl rhwng 18 a 24 oed yn meddwl ei bod hi'n iawn i daflu 'sbwriel' allan o ffenest y car.

Ta waeth, mi wnaeth Geraint benderfynnu gwneud rhywbeth ymarferol am y mater ar 13eg Ionawr. Mi gasglodd saith bag archfarchnad o sbwriel a'i drosglwyddo mewn i un o'r bagiau mawr coch sydd wedi eu marcio'n glir '*casglwyd gan wirfoddolwyr*'. Diolch yn fawr Geraint am wneud hyn – mae'r gymuned yn gwerthfawrogi hyn yn fawr.



Yr unig un alla i enwi ydi Brian, Pont Horn sydd allan yn blygeiniol iawn, tra mae'r rhan fwyaf yn eu gwlâu – rhwng 5:30 a 6:00 bore yn aml iawn efo'r fflachlamp pen a'i siaced lachar. Diolch i ti, Brian!

Ond mae angen diolch i bawb arall hefyd sydd yn gwneud eu rhan yn dawel bach – mae'r bagiau coch yn ymddangos yn eitha amal.

Tu ôl i bob dyn da mae yna ddynes well medden nhw, felly rhaid sôn am Jane, partner Geraint, sydd yn gynghorydd cymunedol. Mae hi wedi gweithio'n agos efo'r ysgol i ddylunio posteri i annog pobl i roi'r gorau i daflu 'sbwriel' – mi welwch chi nhw yma ac acw.




Os oes yna rywun yn darllen hwn ac awydd dechrau neu ymuno efo grŵp anffurfiol i hel sbwriel neu angen bagiau coch a menyg, gyrrwch e-bost i'r *Llais*: llandyrnognews@gmail.com.

Diolch yn fawr iawn i bawb.

***Bryn Davies***

# Y Gymdeithas Hanes


Daeth cynulleidfa dda unwaith eto i gyfarfod Cymdeithas Hanes Lleol Llandyrnog a Llangwyfan fis Ionawr, yn Neuadd Bentref Llandyrnog.



Cafwyd cyflwyniad ardderchog gan aelod o'r gymdeithas, Dr Chris Madoc-Jones, am y Rhyfel Dirwest ac Ystafelloedd Coco, gan ymdrin â'r Capeli, y Crynwyr, Byddin yr Iachawdwriaeth, y Gobeithlu, y bragwyr, y tafarnwyr, y boneddigion, yr yfwyr llon a llawer mwy.

Roedd Mudiad Dirwest y 19eg ganrif yn ymateb i'r camddefnydd eang a chynyddol o alcohol. Tynnwyd sylw at y Llw Dirwest, a dangoswyd llun o docyn gwreiddiol wedi'i lofnodi, yn ogystal â lluniau diddorol oedd a wnelo â'r ddarlith.

Ym 1874, lansiodd J S Fry a'i Feibion '*British Workman's Cocoa'*, oedd yn benodol ar gyfer y dosbarth gweithiol a Neuaddau Dirwest. Roedd Ystafelloedd Coco yn llefydd fforddiadwy, a di-alcohol i deuluoedd dosbarth gweithiol yn lle mynychu'r tafarndai. Roedden nhw'n cynnig coco poeth, prydau bwyd, ystafelloedd darllen a hamdden.



Gospel ✢ Temperance ✢ Union.

"*With Malice toward None, with Charity for All.*"

I, the undersigned, do PLEDGE my Word and Honor,

GOD HELPING ME,

To abstain from ALL Intoxicating Liquors as a beverage, wine, beer and cider included, and that I will, by all honorable means, encourage others to abstain.

R. T. Booth E. M. Jones.

Witness H W Jones

# Y Gymdeithas Hanes: parhad

Roedden nhw'n gweithredu fel mannau cymunedol ac yn annog sobrwydd ac adloniant iach – roedd papurau newydd, biliards a gemau i'w cael yno yn rhad ac am ddim.

Cafodd aelodau a gwesteion y gymdeithas eu diddanu gyda pherfformiad o Gân Byddin yr Iachawdwriaeth gan aelod o'r Gymdeithas, Wendy Grey Lloyd, oedd yn gwisgo cap tebyg i un y Fyddin !! Sefydlwyd Byddin yr Iachawdwriaeth ym 1865 gan y Cadfridog William Booth a'i wraig Catherine.

Rhoddodd Chris enghreifftiau o sut y rhannwyd teuluoedd gan eu credoau, a'r effaith a gafodd hyn ar gyfarfodydd cymdeithasol.

Erbyn hyn, mae Tafarn y Kinmel Arms a'r White Horse ill dau wedi cau (yn ogystal â'r Bee, a oedd ar y ffordd allan o'r pentref tuag at Langwyfan), gan adael y pentref gyda dim ond y Golden Lion yn dal ar agor. Mae'r Stafelloedd Coco yn dal i ffynnu fel hwb cymdeithasol.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Gymdeithas ddydd Mercher 18 Mawrth, pan fydd Paul Evans yn traddodi sgwrs am Hen Ddisgyblion Ysgol Sir Dinbych / Y Rhyfel Mawr 1914–18.



*"Ai alcohol dwi'n ei arogli ar eich anadl, Mrs Jones?"*

# Ysgol Bryn Clwyd

Dim ond tair wythnos i mewn i'r Flwyddyn Newydd ac rydym eisoes wedi bod yn brysur iawn, er gwaethaf y tywydd. Mae Dosbarth Tyfu yn dysgu sut i ysgrifennu storïau ac wedi bod ar deithiau cerdded o gwmpas y pentref i roi ysbrydoliaeth iddynt. Mae disgyblion Meithrin wedi bod yn gweithio'n galed iawn ar eu sgiliau torri a gludo ac wedi gwneud rhai blodau 'f' ar gyfer clywed sain llythyren newydd. Yn y cyfamser, mae Dosbarth Hedfan wedi bod yn dysgu sut i glymu cwlwm tro crwn a dau hanner-cwlwm ac wedi defnyddio'r rhain i wneud siglenni a chuddfannau.

Y mis hwn fe wnaethom ddathlu ein hamser gydag Aiden a fyddai wedi bod yn ddeg oed. Fe wnaethom wisgo gwyrdd (ei hoff liw), rhannu atgofion hapus a mwynhau tipyn o Minecraft er cof amdano. Diolch hefyd i dad Aiden oedd wedi gwneud cacen pen-blwydd anhygoel i ni i gyd eu mwynhau.

Mae Dosbarth Hedfan yn edrych ymlaen yn fawr at fynd ar ymweliad preswyl i Langrannog yr wythnos nesaf, ac edrychwn ymlaen at rannu lluniau gyda chi yn y *Llais*.



# Barney Murray: parhad



*(Y llun uchod ac ar y clawr: Y Gymdeithas Walio Cerrig Sychion)*

Wedi pasio profion Lefel 1, 2 a 3 mewn walio cerrig sych, aeth Barney yn ei flaen i wneud Lefel 4, sef lefel Crefft Meistr. Bu Philip Hughes, cyn-gyfarwyddwr Canolfan Grefft Rhuthun yn help mawr i Barney gael bwrsariaeth gwerth £5000 i fynd tuag at brynu deunyddiau er mwyn gallu codi'r waliau i ddangos i arholwyr y dystysgrif hon. Roedd angen codi tair wal nobl mewn gwahanol leoliadau, ac ar ôl hynny, pasio y prawf mawr yn erbyn y cloc. I gael y dystysgrif, roedd rhaid iddo godi wal gerrig pum medr sgwâr, a chornel sgwâr iddi, ar gae profi'r Gymdeithas Waliau Sychion draw yn Cumbria. Ac mi lwyddodd yn rhyfeddol o dda. Llwyddodd Barney felly i ddringo o Lefel sero i Lefel 4 ymhen pum mlynedd – tipyn o orchwyl i'r gŵr ifanc! Enillodd hefyd Wobr Crefftwr Adeiladu Ifanc y Flwyddyn *English Heritage*

Mae o wedi bod yn gweithio ar brosiectau diddorol dros ben ee. achub ffynnon yng ngardd Highgrove, y plasty moethus yn Swydd Gaerloyw oedd yn brif gartref i Charles a Camilla cyn coroni Charles yn Frenin. Un o'i hoff jobsys hyd yn hyn oedd gweithio ar wal Capability Brown (dim ond un ardd Capability Brown sydd yng Nghymru) yng ngardd Neuadd Wynnstay yn Rhiwabon ger Wrecsam. Bu'n gweithio hefyd ar Ynysoedd Allanol Heledd.

Un dasg arall anodd iawn, iawn oedd codi wal sych ar dir serth 30 gradd yn Llangynog, Powys. Fel y dywed Barney does neb eisiau'r gwaith yma oherwydd ei fod mor galed!

Ennill y Brifwyl, y *Grand Prix*, ynghyd â dod yn Feistr-Grefftwr yw'r goron ar y blynyddoedd diwethaf yng ngyrfa lachar Barney – waliwr sych gorau'r byd!

*Llongyfarchiadau mawr i ti, Barney (Gol)*


**GLYN EVANS AUTOCLINIC**

**Canolfan Trwsio Ceir**

Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA



GWAITH YSWIRIANT

TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU

CEIR I'W BENTHYG

GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR

**01745 815141**
**07808970364**

# Capel y Dyffryn

**Y Gymdeithas** Pnawn Sul cyntaf 2026 cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi bendithiol iawn dan ofal Glesni a Dafydd Meirion. Ar ôl y gwasanaeth, yn ystod lluniaeth, cafodd pawb gyfle i wneud afal calennig, oedd yn cynnwys afal ar goesau, clofau, perlysiau a dail bytholwyrdd.



*Cael hwyl wrth greu afal calennig!*

Blwyddyn Newydd Dda hwyr i chi! A dim mor hwyr â hynny yng Ngwm Gwaun, Sir Benfro! Edrychwn ymlaen bob blwyddyn at y Flwyddyn Newydd i ddod. Beth sydd o'n blaenau? 12 mis, 52 o wythnosau, 365 o ddyddiau, 8760 o oriau, 525,600 o funudau a 31,536,000 o eiliadau. Rhodd Duw i ni. Mae nifer o draddodiadau gwahanol i'w gael ar draws y byd i ddathlu'r flwyddyn newydd.

Un traddodiad yng Nghymru wrth gwrs ydi'r Galennig i ddathlu'r flwyddyn newydd. Dyma ychydig o hanes am y Galennig: Mae Calennig yn draddodiad Cymreig hynafol, a arferid ar Ddydd Calan neu ar Hen Galan (13 Ionawr). Ar y diwrnod hwn, byddai plant yn mynd o ddrws i ddrws, gan gario afal wedi'i addurno ar dair ffon, yn canu penillion Calennig, ac yn derbyn arian, danteithion neu fwyd fel bara a chaws, yn gyfnewid am eu dymuniadau da ar gyfer y flwyddyn newydd.

Mae'r afal a addurnir â phigau, cnau a dail gwyrddlas yn symbol o lwc dda, ffrwythlondeb adnewyddiad a bendith.



Mae'n debyg bod y traddodiad yn dyddio'n ôl i'r cyfnod paganaidd, lle'r oedd yr afal yn symbol o'r haul, y ffyn yn cynrychioli'r pelydrau, ac roedd y dail gwyrddlas yn symbol o fywyd tragwyddol. Mae'r symbolaeth wedi newid dros amser, gyda rhai'n ei gysylltu heddiw gyda'r Cristion sef yr afal yn gorff Crist, y ffyn yn dair blynedd o weddi, a'r clofs neu gnau fel y goron ddrain.

Roedd yr afal yn cael ei addurno â gwahanol blanhigion am wahanol resymau, e.e. llawryf er gogoniant; celyn ar gyfer rhagweld; rhosmari er mwyn cofio; bocs er mwyn dewrder a lafant i sicrhau digonedd dros y flwyddyn. Y rhigwm fel arfer fyddai:

Blwyddyn Newydd dda i chi /Ac i bawb sydd yn y tŷ / Dyma fy nymuniad i/ Blwyddyn Newydd dda i chi.

Mae'r traddodiad o gario calennig a chanu am wobr wedi dod yn ôl mewn rhai cymunedau gyda'r Fari Lwyd yn ymuno i mewn yn y dathlu hefyd. Un ardal yng Nghymru sydd wedi cadw at draddodiad yr Hen Galendr (Ionawr 13eg) ydy Cwm Gwaun yn Sir Benfro. Yno, maen nhw'n dathlu'r Calan ddwywaith, unwaith ar 1 Ionawr ac eto ar 13 Ionawr, a phlant yr ardal yn mynd o amgylch y fro yn canu a hel calennig.

(*Diolch i Glesni Edwards am gael rhannu darn o'r sgwrs gawsom yng Nghapel y Dyffryn yn ddiweddar. Gol*)

**Gwasanaethau**

| | | |
|---|---|---|
| 01/02 | 10.00 | Trefniant lleol |
| 08/02 | 9.45 | Parch. Andras Iago |
| 15/02 | 11.00 | Mrs Maryl Rees |
| 22/02 | 10.00 | Sul y Fro – Y Fron |

# Dianc ym mis Tachwedd i Indonesia

Ym mis Tachwedd 2025, bu Hilary a minnau'n ddigon lwcus i dreulio ychydig dros bedair wythnos yn teithio drwy Indonesia, a chael amser yn Singapôr, Bali, Lombok ac Ynysoedd y Gili. Fel sy'n digwydd yn amal, doedd y daith ddim wedi'i chynllunio'n rhy ofalus —mynd o ddydd i ddydd oedden ni. Roedd hyn yn rhoi rhyddid i ni arafu dipyn weithiau, ac aros am amser hirach mewn llefydd lle'r oedden ni'n teimlo'n gyfforddus, a newid cwrs pan ddaliai rhywbeth ein sylw. Roedd hyn yn gyferbyniad llwyr i fis Tachwedd adre, wedi'n hamgylchynu gan gaeau glas braf. Mae'n daith y byddwn yn ei chofio am byth.

Mi ddechreuon ni yn Singapôr, dinas sydd o hyd yn gallu creu argraff. O harddwch tawel y Gerddi wrth y Bae i'r ymweliad emosiynol â Chapel Changi, a bwrlwm y canolfannau bwyd stryd, roedd y lle'n teimlo'n ddiogel, yn groesawgar ac yn hynod effeithlon. Roedd yn fynedfa berffaith i Dde-ddwyrain Asia.

Oddi yno dyma ni'n hedfan i Bali, gan ddechrau ar yr arfordir yn Sanur cyn teithio drwy gefn gwlad a chyrraedd Ubud. Mae Bali yn ynys lle mae bywyd bob dydd a'r byd ysbrydol yn cyd-blethu'n agos – mae'r offrymau blodau bach a osodir ym mhobman, (y *canang sari*) yn rhoi naws dawel a myfyriol i'r ynys. Roedd Ubud yn wyrddach ac yn oerach, gyda theithiau cerdded drwy derasau reis, ymweliadau â themlau, rhaeadrau a phlanhigfeydd coffi, a bwyd lleol gwych.

Un peth oedd yn sefyll allan ym mhob man fuon ni oedd pa mor gyfeillgar a chroesawgar oedd y bobl. Mae llawer o deuluoedd yn byw'n syml iawn yn ôl ein safonau ni, eto roedd 'na ymdeimlad o hapusrwydd a bodlonrwydd ym mhobman.

Yna, aethon ni ymlaen i Nusa Lembongan, cyn symud i Ynysoedd y Gili, lle mae bywyd yn llawer mwy ara deg. Dim ceir, dim ond beiciau, cerdded ar y traeth a snorclo mewn dŵr clir a nofio efo crwbanod. Roedd y cyfan yn hamddenol, yn gyfeillgar ac yn hyfryd o syml.

O Ynysoedd y Gili ddaru ni groesi i Lombok, gan aros yn gyntaf yn Kuta ac yna yn Senggigi. Roedd Lombok yn teimlo'n llai datblygedig ac yn fwy gwledig – diddorol dros ben. Mae amaethyddiaeth ym mhobman — ŷd a reis yn cael eu tyfu mewn caeau bach, yn aml yn cael eu trin â llaw, ond yn cynhyrchu cnydau da, diolch i'r hinsawdd. Fe'm hatgoffodd pa mor ganolog yw ffermio i fywyd bob dydd mewn sawl rhan o'r byd. Fel llawer o ymwelwyr, doedden ni ddim yn gallu anwybyddu'r broblem o wastraff plastig, yn enwedig ar ôl glaw trwm pan gaiff sbwriel ei olchi i mewn i afonydd ac allan i'r môr. Mae'n her fawr i Indonesia, ac yn rhywbeth sy'n aros gyda chi. Daeth y daith i ben yn ôl yn Bali a Singapôr cyn i ni droi am adref. Roedd y siwrnai'n llawn lliw, caredigrwydd a gwrthgyferbyniadau — dinasoedd prysur, ynysoedd tawel, tirweddau trawiadol a phobl gynnes.

Roedd hi'n braf dod adref i Landyrnog, ond byddwn ni'n dau yn cario tipyn o Indonesia gyda ni am amser maith eto.

*Merfyn Parry*



# Hanesion Hazel



I’r rhai â llygad go graff, mae rhai arwyddion cynnar o’r gwanwyn i’w gweld. Gwelais fy lili wen gyntaf ar 31 Rhagfyr, yn swatio dan y gwrych yn fy ngardd, ac erbyn mis Chwefror, mae’r bylbiau bach hyn yn dechrau rhoi arddangosfa wych i ni. Gellir eu gweld mewn clystyrau yn ein coetiroedd llaith, ar hyd glannau afonydd, mewn parciau ac, wrth gwrs, ble bynnag mae ’na bobl. Dydyn nhw ddim yn rhywogaeth frodorol naturiol, ac mae’r rhan fwyaf wedi cynefino neu wedi dianc o erddi. Mae’n debygol eu bod wedi’u cyflwyno yma ddiwedd y 1500au.

Gellir gweld y blodau cynnar hyn yn llifo allan o’r gwrych ym Mryn Egwallt, fel afon o wynder a gwyrdd yn cyhoeddi fod y gwanwyn wedi dod. Os ewch chi am dro yn ardal Llangynhafal, i fyny heibio Pentre Farm tuag at Barc Gwledig Moel Famau, byddwch chi’n pasio sawl bwthyn gwag. Y cyntaf yw Pentre Bach ac ymhellach i fyny mae Pentre Uchaf. Roedd pobl yn byw yno hyd 1901, ac mae ’na swp o glychau’r eira’n cuddio’r llechwedd i lawr at y nant fach islaw.

Enw botanegol y lili wen fach, neu glustog yr eira, ydi *Galanthus*. Maen nhw fel arfer rhwng tua 7 a 15 cm o daldra, a blodau gwyn siâp cloch ar ddiwedd coesyn blodeuol unionsyth, a dau neu dri o ddail. Pan oeddem yn blant, byddem yn casglu’r blodau bach hyn, ond heddiw mae’n anghyfreithlon eu dadwreiddio gan eu bod wedi’u diogelu o dan *Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981*.

Mae gan glychau’r eira eu lle hefyd mewn llên gwerin, gan symboleiddio gobaith yn ogystal â marwolaeth. Gobaith bod y gwanwyn ar fin dod i roi diwedd ar y gaeaf. Plannwyd y blodau hyn yn eang mewn mynwentydd, a daethant yn gysylltiedig yn gryf â galar a chofio – gelwid nhw’n aml yn “Flodyn Corff” neu “Flodyn Marwolaeth”. Mae gan Fynwent Eglwys Llangwyfan doreth o glychau’r eira, ac mae’n werth ymweld â hi i’w gweld.

Yn ôl traddodiadau meddygaeth werin Dwyrain Ewrop, defnyddiwyd y bylbiau i leddfu poen drwy eu rhwbio ar y pen. Maen nhw hefyd yn chwarae rhan mewn meddygaeth fodern: cafodd *galantamine*, a ddefnyddir i arafu dirywiad gwybyddol mewn clefyd Alzheimer, ei dynnu gyntaf o’r lili wen fach. Felly, maen nhw’n dod â gobaith nid yn unig fel arwydd o ddiwedd y gaeaf, ond hefyd drwy eu cyfraniad at feddygaeth. Ond gair o rybudd: mae bwlb y lili wen fach yn wenwynig, felly peidiwch â’i fwyta na’u rhoi’n feddyginiaeth i chi’ch hun.

Un peth dwi bob amser yn awyddus i’w weld ydi ymddangosiad y cenawon cyll (*catkins*). Maen nhw’n hongian i lawr fel taseli, ac maen nhw’n arwydd go iawn bod y gwanwyn ar ei ffordd. Mae rhai yn eu galw’n “cynffonnau ŵyn bach”, ac wrth i chi frwsio heibio iddyn nhw, maen nhw’n rhyddhau eu paill powdrog. Mae’r paill hwn yn ffrwythloni’r blodau benywaidd bach coch, fydd yn ffurfio’r cnau cyll y byddwn ni’n eu mwynhau yn yr Hydref.

Rwy’n siŵr erbyn diwedd y mis hwn y bydd y gwanwyn wedi cyrraedd; bydd yr ieir yn dod yn ôl i ddodwy, a bydd yr hadau cyntaf wedi’u hau, yn barod i’r flwyddyn arddio gael ffrwydro’n effro ar gyfer 2026.

**Hazel**

# Dydd Mawrth Ynyd – Dydd *Frappe*

**Dydd Mawrth Ynyd, crempog bob munud**
Dyna oedd yr hen ddywediad ar y diwrnod ola cyn y Grawys yng nghalendr yr Eglwys – y diwrnod traddodiadol i wneud y gorau o unrhyw flawd, siwgr, wyau neu fenyn yn y tŷ a gwledda ar fwydydd fel crempogau (neu bancos/cramoth/ffroes) cyn Dydd Mercher Lludw, diwrnod cyntaf y Grawys. Doedd wiw i chi wledda adeg y Grawys – cyn bod y Cristion i ymprydio a myfyrio ar holl ystyr y Pasg fyddai'n dod ymhen 40 diwrnod.

Mewn rhannau o Gymru hyd at ddechrau'r 20fed ganrif, Dydd Mawrth Ynyd oedd y diwrnod i'r plant fynd o dŷ i dŷ i ofyn am grempogau: tebyg iawn i'r traddodiad o hel Calennig adeg y Calan. Canu fyddai'r plant – un gân boblogaidd wrth gwrs oedd y gân werin adnabyddus *Modryb Elin Ennog:*

*Modryb Elin Ennog,*
*os gwelwch chi'n dda ga' i grempog?*
*Cewch chithau de a siwgwr gwyn,*
*a phwdin lond eich ffedog....*

Mae'r gân werin a'r crempog yn dal yn boblogaidd iawn – mae tref Rhuthun wedi cael y syniad gwych o Ras Grempogau!!

Mae'r arferiad yn fyd-eang, ac yn dal yn fyw yn Ffrainc a rhannau o'r Unol Daleithiau dan yr enw *Mardi Gras* (Dydd Mawrth TEW). Mae'r digwyddiad lliwgar yn New Orleans yn denu o leiaf filiwn o dwristiaid bob blwyddyn. Maen nhw'n dal i gael '*Krampouezh*' hefyd yn Ne Llydaw – mae'r gair yn perthyn mor agos i'n 'crempog' ni – yr un gwreiddyn Celtaidd.

Er i ni fod mewn sawl *carnevale* (carnifal) yn yr Eidal ar hyd y blynyddoedd, byddem yn meddwl mai i anrhydeddu seintiau lleol oedden nhw yn y bôn. Dim ond yn ddiweddar y daethon i ddeall eu bod wedi dechrau oherwydd Dydd Mawrth Ynyd – erbyn hyn, mae'r dathliadau'n dechrau weithiau ddiwedd Ionawr!

Mae'r *Carnevale* yn Fenis yn denu twristiaid wrth y miloedd, ond bydd parêd drwy'r strydoedd a phawb yn gwisgo dillad lliwgar a masgiau, mewn llawer o drefi yn yr Eidal yr adeg yma.

O'r gair 'cig' – *carne* a 'cael gwared'– *levare* – y daw'r gair *carnevale*. Doedd neb i fwyta cig o gwbl yn ystod y Grawys ac felly, roedd rhaid cael gwared o'r cwbl ar y Dydd Mawrth cynt.

Weithiau bydd cystadleuaeth 'fflôts carnifal' y plant a phobl ifanc i gael diweddu efo sioe fawr o ddathlu enillydd y *carnevale*.



*Elen Mazzi a'i merched mewn carnevale*

Arferiad hyfryd arall ydi gweld cannoedd o blant â'u pacedi conffeti (eco) yn eu taflu i'r awyr yr un pryd, a phawb yn gyffro i gyd. Cânt wedyn fwynhau mynd ar reids gwahanol yn y ffair fach dros dro.

Wrth gwrs, rhan fawr o'r *carnevale* ydi'r gwledda a phob ardal â'u bwyd arbennig eu hunain. Digonedd o gig a phasta a chnau castan ar y stondinau stryd. A'r cacennau! Waaaw!

Un gacen boblogaidd iawn ydi'r *frappe* (DIM y coffi) neu *chiacchiere*. I ddeud y gwir, mae blawd a wyau a halen yn y rhain fel ein crempog ni, ond bod yna chydig o fenyn i'w roi a dim llaeth. Ffrio'r toes fyddan nhw mewn mwy o saim na'r 'chydig ar badell ffrio i'r crempog.

Beth am newid o'r hen grempog eleni – y *frappe* amdani!!

## Dydd *Frappe*: parhad

***Frappe'r Eidal***
300g blawd codi
50g siwgr
30g menyn
2 ŵy
Pinsiad o halen
Nodd fanila

**Dull**
Rhowch y blawd, y siwgr, a'r halen mewn bowlen fawr.
Yn ara deg, ychwanegwch y gymysgedd o wyau, menyn (meddal), a nodd fanila.
Cymysgwch bopeth yn dda, ei fowldio'n belen yn barod i'w dylino.
Taenwch flawd allan ar fwrdd a dechre tylino'r belen am o leiaf 6 munud. Lapiwch y toes mewn cadach, neu gling ffilm am ryw hanner awr.
Torrwch yn chwarteri a dechreu eu rholio yn eu tro, nes bod y toes mor denau, gallwch chi weld eich bysedd yr ochor arall!!
Torrwch yn ddarnau – hirsgwar, fel arfer. Dewiswch chi.
Ffriwch y darnau fesul 2, 3 mewn oel poeth (tua 180°/190°) am 1, 2 funud nes eu bod wedi brownio. Rhowch ar bapur cegin
Sgeintiwch â digon o siwgwr eisin, neu eu bwyta efo digonedd o hufen ia!
Mwynhewch!!

***Ann Jones Evans***



## Tuesday Club

Yng nghyfarfod cynta'r flwyddyn, cawsom sgwrs ddiddorol iawn un o drigolion y pentre, Sarah McCulloch, ar y cwmni buddiant cymunedol STAND Gogledd Cymru. Sefydlodd Sarah y cwmni hwn, ar y cyd â'i phartner busnes, i gefnogi teuluoedd â phlant neu oedolion ifanc sydd ag anghenion ychwanegol ac anableddau yn y Gogledd. Mae STAND hefyd yn cynnig llyfrgell o deganau synhwyraidd a llyfrau gwybodaeth i'w benthyca gan deuluoedd sydd wedi cofrestru gyda'r cwmni yng Nghonwy a Sir Ddinbych.



Diolchwyd i Sarah gan Betty, yn absenoldeb Anwen oherwydd salwch, gweinwyd lluniaeth ysgafn, a thynnwyd y raffl. Bydd y cyfarfod nesaf bnawn dydd Mercher, 18 Chwefror pan fyddwn yn cael sgwrs am oergell gymunedol Dinbych.

**Rhifau ffôn defnyddiol**
Canolfan Gofal Cwsmer
Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**
Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies, Ann a Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams.

# Y Clwb Garddio

Mwynhaodd Clwb Garddio Llandyrnog sgwrs hynod ddiddorol gan John Rowlands am ei ddiddordeb pennaf, sef Pys Pêr. Soniodd am eu hanes, sut i'w hau a'u tyfu, ac i'r rhai mwy anturus, sut i arddangos y blodau persawrus hyn. Dangosodd John i'r gynulleidfa luosog sut mae'n paratoi'r pridd ar gyfer y planhigion hyn, sy'n syndod o galed.

Yn wir roedd yn brofiad addysgol ei bod hi'n bosib hau hadau yn ystod misoedd oer Ionawr a Chwefror a'u gadael mewn ffrâm oer, hyd yn oed dan haen o eira, i egino a thyfu ymlaen cyn cael eu plannu y tu allan. Rydym yn meddwl am y blodau hyn sy'n hoffi'r haul, ond mae'r gwaith caled o'u tyfu yn dechrau yng nghanol y gaeaf. Mae'r dringwyr egnïol hyn yn cynhyrchu blodau mewn amrywiaeth o liwiau (ond nid melyn) – gwyn, pinc, porffor, coch a glas.




*Un o wobrau niferus John am arddangos pys pêr*

Dangosodd John sut i hau'r hadau yma ac yna cafodd pawb gyfle i hau hadau mewn potiau i'w cymryd adref. Gwyliwch allan am Sioe Flodau Llandyrnog, gan fydd digonedd o gystadleuwyr eleni yn y dosbarth Pys Pêr! Darparwyd lluniaeth a mwynhaodd pawb sgwrs dros baned cyn mynd adref.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf ddydd Mawrth, Chwefror 10fed am 7yh yn y Stafell Isaf yn Neuadd Bentref Llandyrnog, pan fydd Allan Evans yn dangos i ni sut i dyfu ac arddangos dahlias.

**Becky Gittins, AS Dwyrain Clwyd**

becky.gittins.mp@parliament.co.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01352 871130

**Townsend Supplies**

**Townsend, Denbigh Ll16 3AW**

**01745 814918**

**For all farmyard & agricultural accessories & building supplies**

- Tanalised timber
- Concrete posts
- Panel fencing
- Water pipe fittings
- Water tanks
- Sand
- Cement
- Concrete blocks

# Gair gan yr offeiriad

***Myfyrdod ar Ddydd Mercher y Lludw***

I Gristnogion, mae Dydd Mercher y Lludw, sydd ar 18 Chwefror eleni, yn nodi dechrau tymor y Grawys.

Mewn gwasanaethau Dydd Mercher y Lludw, caiff addolwyr yr eglwys eu marcio ar eu talcenni â chroes o ludw fel arwydd o edifeirwch a marwoldeb.

Mae'r defnydd o ludw, a wneir drwy losgi croesau palmwydd o'r Sul y Blodau blaenorol, yn llawn symbolaeth. Fel arfer, dywedir y geiriau canlynol: 'Cofia mai dim ond  llwch wyt, ac i'r llwch y dychweli.' Weithiau caiff y lludw ei gymysgu ag olew eneinio, sy'n helpu'r lludw i adael marc clir, ac sydd hefyd yn atgoffa'r addolwr o fendithion Duw a'r eneiniad yn ystod eu bedydd.



Mae marcio'r talcen â chroes o ludw yn atgoffa bod:

- Marwolaeth yn dod i bawb
- Dylem deimlo edifeirwch ac edifarhau am ein pechodau
- Dylem newid ein hunain er gwell
- Duw wnaeth y bod dynol cyntaf drwy anadlu bywyd i lwch, a heb Dduw nid yw bodau dynol ddim mwy na llwch

Mae siâp y marc a'r geiriau a ddefnyddir yn symbolaidd mewn ffyrdd eraill hefyd:

- Mae'r groes yn ein hatgoffa o farc y groes a wnaed adeg y bedydd
- Gall ddefnyddio lludw i farcio'r groes ar dalcen y crediniwr fod yn symbol o'r ffordd y mae aberth Crist ar y groes, fel cymod dros bechod, yn disodli traddodiad yr Hen Destament o offrymau llosg i wneud yn iawn am bechod.

Mewn rhai eglwysi, mae'r addolwyr yn gadael y gwasanaeth a'r marc yn dal ar eu talcen, fel eu bod yn cario arwydd y groes allan i'r byd. Mewn eglwysi eraill, daw'r gwasanaeth i ben drwy olchi'r lludw i ffwrdd fel arwydd bod yr aelodau wedi'u glanhau oddi wrth eu pechodau.

Mae defnyddio'r lludw i farcio'r groes ar dalcen y credadun yn symboleiddio, drwy farwolaeth ac atgyfodiad Crist, fod pob Cristion yn gallu bod yn rhydd oddi wrth bechod a chael bywyd tragwyddol drwy ein Harglwydd Iesu — dechreuad newydd.

Wrth i ni symud tuag at y Gwanwyn, gadewch inni ystyried y Gwanwyn fel cyfnod o ddechreuadau newydd — o ailenedigaeth — o eni newydd, sy'n llonni ein calonnau. Pwy na all edrych ar ŵyn bach newydd eu geni'n chwarae'n llawen yn y caeau, neu weld y coed yn blaguro ac yn blodeuo, heb deimlo llawenydd a gwenu? Y gwanwyn hwn, pam na gymerwch chi ychydig o amser i fod yn llonydd ac i fyfyrio ar lawenydd y Gwanwyn? Gall fod yn syndod pa mor fywiog ac egniol y gall hyn wneud i ni deimlo.

Mewn ychydig wythnosau fe ddaw'r Pasg — tymor lle mae Cristnogion yn dathlu bywyd newydd: bywyd newydd yr Iesu atgyfodedig a'r addewid o fywyd newydd y gallwn ni ei gael drwy ei farwolaeth aberthol a'i atgyfodiad — gan ddod â llawenydd i'n calonnau a'n heneidiau.

*Y Parch. Ganon Juliet Fraser*



# Cyngor Cymuned Llandyrnog

- ⇒ Rhoddodd Vicky Owen gyflwyniad byr a chryno am gais cynllunio yr oedd wedi'i gyflwyno i agor cyfleuster diogel i ymarfer cŵn ar Fferm Speddyd. Byddai'r cyfleuster yn cael ei reoli'n llym, gyda mynediad drwy archebu ar-lein yn unig.
- ⇒ Rhoddodd Dr MacKinnon-Day gyflwyniad am y prosiect artist preswyl, a fyddai, gobeithio, yn cynnwys ymweliadau ddwywaith yr wythnos â'r Siop i wneud sgetsh o rai sy'n ymweld â'r siop a'u gweithgareddau bob dydd. Byddai hyn wrth gwrs ar gost – bydd y Cyngor Cymuned yn ei ystyried pan fydd yn briodol, ond yn y cyfamser bydd llythyr o gefnogaeth yn cael ei anfon.
- ⇒ Nid oedd y Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn gallu bod yn bresennol ond roedd wedi anfon adroddiad ysgrifenedig. Cofnodwyd pedwar digwyddiad y mis diwethaf, sef:
    - ⇒ Person amheus wedi'i weld ger safle adeiladu yn oriau mân y bore, ond dim arwydd o dorri i mewn
    - ⇒ Twyll drwy ffôn – ceisiwyd gwneud taliad ond cafodd ei atal gan y banc
    - ⇒ Dau atgyfeiriad lles – wedi dod o hyd i un person oedd ar goll a'i ddychwelyd, a phryderon am les plentyn wedi'u cyfeirio at yr awdurdod priodol.
    - ⇒ Roedd y SCCH wedi ymrwymo i fynychu'r Siop i drafod pryderon gyda phobl leol, a mynd i unrhyw fore coffi, os byddai llwyth gwaith yn caniatáu.
- ⇒ Roedd y Cyngor Cymuned wedi ystyried prynu 'SmartWater' fel y gallai trigolion adnabod eu heiddo'n hawdd dan olau uwchfioled pe bai'n cael ei ddwyn. Fodd bynnag, cafwyd gwybod gan Heddlu Gogledd Cymru fod tâl o £25 y pecyn a rhaid archebu o leiaf 100 pecyn ar y tro, gan wneud y gost yn ormodol. Yn anffodus, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â'r cynnig.
- ⇒ Mae Carolyn Langford Jones wedi cynnig yn garedig i ymgymryd â rôl clerc llogi'r Stafelloedd Coco – bydd manylion yn cael eu cyhoeddi yn *Llais*, yr Ystafelloedd Coco a'r wefan.
- ⇒ Bu'r cyngor yn llwyddiannus yn eu cais am gyllid ychwanegol ar gyfer prosiect Cae Nant ac wedi sicrhau £9,295 arall, sydd, pan gaiff ei ychwanegu at yr arian loteri, yn galluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen. Bydd cyfarfod yn cael ei gynnal yn fuan gyda Kompan i gytuno ar raglen waith. Soniwyd hefyd am ffens newydd i wahanu'r maes parcio a'r ardal chwarae; ond, gan nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn y cynnig gwreiddiol, byddai cost ychwanegol yn codi – felly bydd rhaid cael trafodaeth yn fuan.
- ⇒ Mae'r cynllun busnes a'r cynlluniau bioamrywiaeth ill dau wedi'u diweddaru, ac, yn eu tro, byddant yn cael eu cynnwys ar y wefan.
- ⇒ Mae'r ffordd rhwng Celynog a'r Kinmel mewn cyflwr gwael iawn ac mae'r cynghorwyr cymuned wedi gwneud ymholiadau i weld os ydi'r bwriad i ail-wynebu'r ffordd yn dal yn y gyllideb cyfalaf, neu a ydi'r arian wedi'i ail-ddyrannu.

## Cyngor Sir Ddinbych



**Merfyn Parry**

Manylion cyswllt:

Ffôn: 07836 208446

*E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk*

*Neu gadewch neges ar Facebook*

*Argraffwyd gan Mike Neuman    www.neumannprintersdenbigh.co.uk    01745 814067*